**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Hydref 2010**

**Peiriannau ac Ysgol ag Esgynlawr (ALPs)**

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Pwrpas yr Adroddiad

1 Pwrpas yr adroddiad yw edrych am benderfyniad gan yr Awdurdod ar ba un ai i gynnal y safon presenoldeb o 20 munud ar gyfer peiriannau ag ysgol ac esgynlawr neu godi'r safon i 30 munud yn unol ag argymhelliad y Panel Gweithredol ar 10fed o Fai 2010.

## Cefndir

2 Mae gan y Gwasanaeth bedwar peiriant ag ysgol ac esgynlawr ar hyn o bryd sydd wedi eu lleoli ym Mangor, Llandudno, Y Rhyl a Wrecsam er mwyn cwrdd â'r safon presenoldeb o 20 munud a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod er mwyn cynnwys yr ardaloedd risg perthnasol yma.

3 Bydd y peiriant ag ysgol ac esgynlawr sydd yng ngorsaf dân Wrecsam yn cyrraedd diwedd ei wasanaeth yn 2012. Bydd pwmp newydd yn costio oddeutu £600,000 mewn cyfalaf gydag effaith refeniw parhaus ar y gyllideb o £50,000 y flwyddyn.

4 Yng nghyfarfod Panel Gweithredol yr Awdurdod ar 10fed Mai 2010, penderfynwyd yn unfrydol argymell i'r Awdurdod newid y safon presenoldeb i 30 munud ac fel canlyniad i beidio â phrynu peiriant ag ysgol ac esgynlawr newydd.

## Gwybodaeth

5 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 21ain Mehefin 2010, derbyniodd yr Aelodau adroddiad ar y mater hwn ac o ganlyniad, penderfynwyd derbyn amlinelliad pellach yn gynnar ym mis Medi.

6 Digwyddodd yr amlinelliad hwn ar 3ydd Medi 2010. Roedd y briff yn agored i'r holl Aelodau ac yn cynnwys gwybodaeth helaeth ar y defnydd, cymhwysiad a lleoliad y peiriannau ag ysgol ac esgynlawr. Roedd y wybodaeth yma wedi cael ei roi i'r Panel Gweithredol mewn nifer o gyfarfodydd blaenorol.

7 Roedd Aelodau wedi gallu gofyn ystod o gwestiynau ar y mater ac fe'u hanogwyd gan y Prif Swyddog Tân i gysylltu ag ef os oeddynt angen rhagor o wybodaeth. Nid oedd unrhyw geisiadau dilynol gan Aelodau.

8 Mae'r mater hwn wedi derbyn ymgynghoriad cyhoeddus o'r blaen, fel rhan o adolygiad yr Awdurdod ar beiriannau arbennig yn 2003/04 i gychwyn. Roedd yr adolygiad yn un o amcanion yr Awdurdod a gyhoeddwyd yn ei Gynllun Rheoli Risg Integredig cyntaf o dan y pennawd "Atal, Amddiffyn ac Ymateb". Aeth y mater hwn o drwy broses ymgynghori lawn unwaith eto yn 2006 fel amcan penodol trydydd cynllun gweithredu'r Cynllun Rheoli Risg Integredig o dan y pennawd "Cynnal Momentwm".

9 Ynghlwm fel Atodiad 1 mae copi o lythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Tref Llandudno ar 30ain Medi 2010. Mae cynnwys y llythyr yn hunanesboniadol ac wedi'i atodi er gwybodaeth i Aelodau.

## Argymhellion

10 Wedi derbyn amlinelliad a gwybodaeth ar y mater hwn, fod yr Aelodau yn nodi argymhelliad y Panel Gweithredol ac yn penderfynu un ai:

a) cynnal y safon 20 munud bresennol, neu
b) mabwysiadu safon 30 munud i'r Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr.